

Panel Dyfarnu Cymru

Adroddiad Blynyddol



2006 - 2007

Rhagair

Unwaith eto mae'n bryd i mi roi'r newyddion diweddaraf i chi am weithgareddau Panel Dyfarnu Cymru. Dyma'r trydydd adroddiad ffurfiol ers i mi gael fy mhenodi'n Llywydd y Panel ac mae'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol 2006-07.

Nid oes unrhyw ofyniad statudol i mi lunio adroddiad blynyddol ffurfiol, ond gan fod y llynedd yn flwyddyn gymharol brysur arall i'r Panel, rwyf wedi penderfynu llunio adroddiad cynhwysfawr unwaith eto.

Yn 2006-07, cariodd y Panel 5 atgyfeiriad o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a 2 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Yn ystod y flwyddyn, cefais 4 atgyfeiriad pellach gan yr Ombwdsmon a 2 apêl. Ceir crynodeb o'r achosion hynny a benderfynwyd yn Adran 3 o'r Adroddiad hwn.

Ym mis Medi 2006 bôm yn bresennol yn ail gynhadledd flynyddol Cynhadledd Pwyllgor Safonau Cymru Gyfan, a gynhaliwyd unwaith eto gan Gyngor Sir Ceredigion. Bu Adam Peat, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, hefyd yn bresennol yn y Gynhadledd, a rhoddodd drosolwg o'i rôl wrth ymchwilio i honiadau o gamymddwyn yn erbyn aelodau. Rhoddwyd y brif araith gan Mr James Goudie QC a ymdriniodd â mater rhagfarn a rhagderfynu a'r gwahanol ymagweddau a oedd wedi'u mabwysiadu gan y Llysoedd o ran y materion hyn.

Rwy'n parhau i roi cryn bwyslais ar hyfforddi a datblygu aelodau'r Panel ac unwaith eto bu hyn yn rhan bwysig o weithgareddau'r Panel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ym mis Medi, ymunodd aelodau'r Panel unwaith eto â'u cyfatebwyr ym Mhanel Dyfarnu Lloegr a Chomisiwn Safonau'r Alban ar gyfer seminar hyfforddi ar y cyd yn Sheffield. Er y gall ein "codau" fod yn wahanol, mae llawer i'w ennill o'r digwyddiadau hyfforddi ar y cyd hyn, sy'n darparu fforwm defnyddiol i aelodau drafod materion sydd o ddiddordeb cyffredin i'r tair awdurdodaeth.



Ar ben hynny, cynhaliwyd digwyddiad hyfforddi ar gyfer Panel Dyfarnu Cymru ym mis Rhagfyr. Ymunwyd â ni yn ystod y digwyddiad hwn gan Ian Medlicott, Swyddog Monitro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a ddarparodd gipolwg gwerthfawr ar y modd y gweithredir y fframwaith moesol yn lleol o "Bersbectif Swyddog Monitro".




J PETER DAVIES
Llywydd
Medi 2007



Cynnwys

1. Cyflwyniad/Cefndir	5
• Deddf Llywodraeth Leol 2000	5
• Cod Ymddygiad	5
• Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru	5
• Rôl Panel Dyfarnu Cymru	6
2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru	8
3. Honiadau o Gamymddwyn	10
• Trosolwg	10
• Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos	12
• Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl	16
4. Trosolwg o Weithdrefnau	20
5. Uned Gymorth	21
6. Atodiad	22
• Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl	22





1. Cyflwyniad/Cefndir

Deddf Llywodraeth Leol 2000

Sefydlodd Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 fframwaith newydd i hyrwyddo cadw safonau ymddygiad cyson gan aelodau llywodraeth leol yng Nghymru a Lloegr. Ar 21 Mehefin 2001, gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol y set gyntaf o reoliadau gan weithredu'r fframwaith hwnnw yng Nghymru.

Cod Ymddygiad


Mae'r fframwaith moesol yn seiliedig ar god ymddygiad statudol. Mae pob rhan o lywodraeth leol yng Nghymru (ac eithrio awdurdodau'r heddlu) - h.y. cyngorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol, cyngorau tref a chymuned, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub - wedi mabwysiadu cod ymddygiad sy'n cynnwys darpariaethau Cod Ymddygiad Enghreifftiol a bennwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol. Rhaid i bob aelod o lywodraeth leol, sydd wedi ei ethol neu ei gyfethol, addo y bydd yn ufuddhau i'r cod a fabwysiadwyd gan ei gyngor neu ei awdurdod.

Mae'n ofynnol i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr ufuddhau i god ymddygiad enghreifftiol a bennwyd gan Lywodraeth y DU.

Rôl Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru/Pwyllgorau Safonau

Gall unrhyw un gyflwyno honiad ysgrifenedig i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru bod aelod etholedig neu gyfetholedig wedi torri cod ymddygiad awdurdod. Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 bwerau i'r Ombwdsmon ystyried honiadau o'r fath ac ymchwilio iddynt.

Mae'n bosibl y bydd yr Ombwdsmon yn dod i'r casgliad ar ddiwedd yr ymchwiliad nad yw'r cod wedi ei dorri neu nad oes angen cymryd unrhyw gamau eraill. Os bydd yn dod i gasgliad gwahanol, bydd yn llunio adroddiad ar yr ymchwiliad a gynhaliwyd ac yn ei anfon naill ai at Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol, neu at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru.



Os bydd yr Ombwdsmon yn cyfeirio'r mater i sylw'r Swyddog Monitro, bydd Pwyllgor Safonau'r awdurdod perthnasol yn ystyried adroddiad yr ymchwiliad. Bydd y pwyllgor hefyd yn ystyried unrhyw sylwadau gan y sawl y mae'r ymchwiliad yn ymwneud ag ef, ac os yw'r cod wedi ei dorri, bydd yn penderfynu a ddylid gosod unrhyw gosb. Gallai hyn amrywio o gerydd i ataliad am hyd at chwe mis.

Gall yr Ombwdsmon derfynu ymchwiliad ar unrhyw amser a chyfeirio'r materion sy'n destun yr ymchwiliad i Swyddog Monitro'r awdurdod perthnasol i gynnal ymchwiliad a chyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Safonau.

Rôl Panel Dyfarnu Cymru

Mae gan y Panel Dyfarnu ddwy swyddogaeth statudol:

- Ffurio tribiwnlys achos neu dribiwnlys achos interim i ystyried adroddiadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, yn dilyn ymchwiliad i honiadau bod aelod heb gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod perthnasol;
- Ystyried apelau gan aelodau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau lleol.

Tribiwnlysoedd Achos a Thribiwnlysoedd Achos Interim

Pan fydd yr Ombwdsmon yn anfon adroddiad at Lywydd y Panel Dyfarnu, sefydlir "tribiwnlys achos" yn cynnwys aelodau o'r Panel er mwyn ystyried yr adroddiad, derbyn tystiolaeth a phenderfynu a yw'r cod ymddygiad wedi ei dorri.


Os bydd y tribiwnlys yn penderfynu bod aelod wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, mae ganddo bwerau i atal aelod dros dro, neu i'w atal dros dro yn rhannol, am hyd at flwyddyn; neu gall anghymwyso aelod am hyd at bum mlynedd. Pan fydd tribiwnlys achos yn penderfynu bod rhywun wedi methu â chydymffurfio â chod ymddygiad awdurdod, gall y person hwnnw apelio i'r Uchel Lys yn erbyn y penderfyniad hwnnw, neu unrhyw benderfyniad a wnaed gan y tribiwnlys mewn perthynas â'r gosb sydd i'w gosod o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.



Pan fydd yr Ombwdsmon o'r farn bod hynny o fudd i'r cyhoedd, gall wneud adroddiad interim i Lywydd y Panel Dyfarnu yn argymhell bod aelod yn cael ei atal dros dro tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal. Bydd tribiwnlys achos interim yn penderfynu a ddylai'r aelod gael ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol am hyd at chwe mis.

Tribiwnlysoedd Apêl

Pan fydd yr Ombwdsmon wedi cyfeirio'r mater i sylw'r swyddog monitro a phan fydd y pwyllgor safonau wedi penderfynu bod y cod ymddygiad wedi ei dorri, bydd gan yr aelod dan sylw hawl i apelio i'r Panel Dyfarnu. Mae'n rhaid arfer yr hawl hon o fewn 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd yr aelod hysbysiad o benderfyniad y pwyllgor safonau. Pan fydd tribiwnlys apêl yn cytuno bod y cod wedi ei dorri, gall gymeradwyo'r gosb a bennwyd gan y pwyllgor safonau, neu gyfeirio'r mater yn ôl i'r pwyllgor gydag argymhelliad y dylid pennu cosb wahanol. Gall y tribiwnlys apêl hefyd wrthdroi penderfyniad pwyllgor safonau bod aelod wedi torri'r cod ymddygiad.



2. Aelodau Panel Dyfarnu Cymru

Penodwyd Aelodau i'r Panel ar 1 Hydref 2002 am gyfnod o bum mlynedd. Mae gan aelodau'r Panel ystod eang o wybodaeth a phrofiad. Maent yn dod o wahanol rannau o Gymru sy'n golygu, cyhyd ag nad oes unrhyw wrthdaro buddiannau, y gellir penodi aelodau i driwlynsoedd ar sail ddaearyddol.

Mae'r Llywydd, yr aelodau cyfreithiol ac un o'r aelodau lleyg yn siarad Cymraeg.



Mae Llywydd y Panel Dyfarnu, **Mr J Peter Davies**, yn berchen ar bractis cyfreithiol yng Nghaerdydd. Mae'n arbenigo mewn ymgyfreitha sifil a masnachol, ac, yn fwyaf arbennig, mewn materion rheoliadol. Mae'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth ac yn gadeirydd y Tribiwnlys Disgyblu Cyfreithwyr.



Bargyfreithiwr yn Abertawe yw **Mr Stewert Sandbrook-Hughes** ac mae hefyd yn ddyfarnwr i'r Gwasanaeth Dyfarnu Parcio Cenedlaethol.



Mae **Mr Hywel James** yn bartner yng nghwmni James & Bulteel yng Nghaerdydd. Mae'n arbenigo mewn ymgyfreitha, ac mewn esgeulustod proffesiynol yn fwyaf arbennig.



Mae **Mrs Helen Cole** yn uwch-bartner mewn practis cyffredinol yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru ac yn arbenigo mewn achosion di-gynnen i gleientiaid preifat.



Ymgyngorydd peirianeg sifil rhan-amser yw **Mr Ian Blair**. Bu'n gweithio fel Syrffwr Sirol gyda Chyngor Sir Powys ac mae wedi bod yn ddarlithydd gwadd i Brifysgol Cymru, Aberystwyth. Mae'n aelod o Fwrdd Llysoedd Canolbarth a Gorllewin Cymru.






Mae'r **Cyng. Colin Evans** yn gynghorydd Llafur gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ac ef yw Cadeirydd Pwyllgor Craffu yr Amgylchedd yn y Cyngor. Mae hefyd yn gynghorydd ar Gyngor Tref Cwmaman.



Mae'r **Cyng. Christine Jones** yn aelod annibynnol ar Gyngor Tref Llandudno. Mae hefyd yn aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Conwy.



Mae **Ms Juliet Morris** yn Swyddog Polisi gydag Uned Gwybodaeth Llywodraeth Leol ac yn gweithio ar ei liwt ei hun fel ymchwilydd polisi cymdeithasol i sefydliadau fel Cyngor Defnyddwyr Cymru. Bu'n gweithio yn y sector cyngor annibynnol yng Nghymru cyn hynny.



3. Honiadau o Gamymddwyn


Trosolwg

O'i ddechreuad ym mis Hydref 2002 tan 31 Mawrth 2007, mae'r Panel Dyfarnu wedi dyfarnu ar 9 atgyfeiriad oddi wrth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a 6 apêl yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau. Mae ffigurau 1 a 2 yn dangos canlyniadau'r dyfarniadau hyn.

Ceir crynodeb o'r cosbau a roddwyd yn yr Atodiad.

Ffigur 1


Dyfarniadau Tribiwnlysoedd Achos - Hydref 2002 i Fawrth 2007



Cyfanswm yr achosion: 9

Ffigur 2


Dyfarniadau Tribiwnlysoedd Apêl - Hydref 2002 i Fawrth 2007



Mae ffigur 3 yn dadansoddi'r dyfarniadau gan nodi paragraffau'r cod sydd wedi'u tramgwyddo. Mae nifer y tramgwyddau'n fwy na nifer yr achosion y dyfarnwyd arnynt gan fod rhai aelodau mewn rhai achosion wedi torri mwy nag un o baragraffau'r cod.

Ffigur 3

Tramgwyddiadau yn ôl paragraffau'r cod enghreifftiol



Yn 2006-07, cariodd y Panel 5 atgyfeiriad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drosodd o'r flwyddyn ariannol flaenorol. Cyfeiriodd yr Ombwdsmon 4 achos newydd at y Panel yn ystod y cyfnod adrodd. Crynhoir y 5 achos a benderfynwyd gan dribiwnlys achos yn y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn isod.

Crynodeb o Dribiwnlysoedd Achos

APW/006/2005/CT - Cyngor Cymuned Clydach

Ymwnaî'r atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy ddwyn anfri ar swydd aelod a cheisio defnyddio ei safle fel cynghorydd i gael mantais iddo'i hun neu i eraill.

Yr achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad oedd i'r cynghorydd geisio cael mantais iddo'i hun trwy ofyn am ddisgownt ar bryniant preifat trwy honni'n anghywir mai pryniant ar ran y cyngor cymuned ydoedd. Pan wrthodwyd ei gais, dechreuodd ymddwyn yn ddifriol tuag at staff y busnes dan sylw. Bygythiodd niweidio'r busnes hefyd.

Canfu'r tribiwnlys achos fod ymddygiad y cynghorydd yn y siop cynddrwg fel ei fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod. Roedd ei weiddi, ei fethiant i wrando ar staff y siop, y ffaith iddo wrthdaro sawl gwaith ag aelodau o staff a chau'r drws yn glep a'i agwedd ymosodol a gormesol yn gyffredinol wedi methu â chyrnaedd y safon ymddygiad a ddisgwylir yn rhesymol gan unrhyw un heb sôn am rywun sy'n dal swydd gyhoeddus.

Canfu'r tribiwnlys achos hefyd i'r cynghorydd geisio cael mantais iddo'i hun trwy ofyn am ddisgownt ar bryniant preifat trwy honni'n anghywir mai pryniant ar ran y cyngor cymuned ydoedd.

Daeth y tribiwnlys i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd am 9 mis rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Cymuned Clydach.

APW/007/2005/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Ymwnâi'r atgyfeiriad hwn gan yr Ombwdsmon â honiad bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy wneud cwyn faleisus i'r Ombwdsmon yn erbyn aelod arall o'r cyngor.

Roedd y cynghorydd wedi cyflwyno honiad ysgrifenedig i'r Ombwdsmon bod Arweinydd y cyngor wedi torri addewid i ddarparu swyddfa yn gyfnewid am gefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol i ymgeisydd penodol am swydd y Prif Weithredwr. Ni chanfu ymchwiliad yr Ombwdsmon unrhyw dystiolaeth bod y cod wedi'i dorri gan Arweinydd y cyngor a daeth i'r casgliad bod yr honiad a wnaed gan y cynghorydd yn ddi-sail. Honnwyd hefyd fod y cynghorydd yn gyfrifol am ryddhau manylion ei gŵyn i'r cyhoedd ac wrth wneud hynny ei fod wedi dwyn anfri ar swydd cynghorydd a'r awdurdod.

Derbyniodd y tribiwnlys achos fod sgysiau rhwng y cynghorydd a'r Arweinydd ynghylch darparu ystafell ar gyfer Grŵp y Democratiaid Rhyddfrydol. Fodd bynnag gwrthodwyd yr honiad bod unrhyw "gytundeb" hy cynnig yr ystafell yn amodol ar gefnogaeth i ymgeisydd penodol am swydd y Prif Weithredwr.

Canfu'r tribiwnlys achos i'r cynghorydd siarad ag un papur newydd a'i fod wedi anfon llythyr ymlaen i un arall ar ôl i'r Ombwdsmon ddechrau ei ymchwiliad.

Canfu'r tribiwnlys achos fod cwyn y cynghorydd i'r Ombwdsmon yn flinderus ac yn faleisus. Roedd y gŵyn yn faleisus oherwydd ei bwriad oedd achosi niwed i'r Arweinydd ac roedd yn flinderus am iddi achosi gwaith ac ymchwilio diangen gan yr Ombwdsmon.

Canfu'r tribiwnlys achos fod hwn yn achos lle y gwnaed honiad difrifol a di-sail yn erbyn Arweinydd cyngor, a oedd wedi dwyn anfri ar yr awdurdod yn gyffredinol. Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent am gyfnod o 12 mis.



APW/008/2005/CT - Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Cymuned Llantrisant

Ymwnaî'r atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy ddefnyddio ei safle yn amhriodol i gael mantais i aelod o'i deulu trwy anfon llythyr i'r Llys Teulu a methu â thrin person gyda pharch mewn e-bost.

Yn ystod ei ymchwiliad daeth yr Ombwdsmon yn ymwybodol o honiadau pellach yn ymwneud â'r cynghorydd, sef bod y cynghorydd wedi'i gael yn euog o drosedd a'i fod wedi dwyn anfri ar ei swydd fel aelod.

Nid oedd y cynghorydd am fynychu'r Tribiwnlys ac ni heriodd gynnwys Adroddiad yr Ombwdsmon. Penderfynodd y tribiwnlys achos ar ei ddyfarniad trwy sylwadau ysgrifenedig.

Canfu'r tribiwnlys achos na fethodd y cynghorydd â chydymffurfio â pharagraff 7(a) o godau ymddygiad yr awdurdodau perthnasol oherwydd nad oedd wedi rhoi unrhyw bwyslais arbennig ar y ffaith ei fod yn gynghorydd er bod ei lythyr i'r Llys Teulu wedi disgrifio ei wahanol rolau yn y gymuned.

Canfu'r tribiwnlys achos fod y cynghorydd wedi torri paragraffau 4(a) a 6.1(b) o godau ymddygiad yr awdurdodau. Roedd wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth i berson trwy anfon e-bost ato yr oedd ei gynnwys yn ymosodol, yn annifyr ac yn fygythiol ac am ei fod yn gwbl ddiangen, amhriodol a digymell o dan yr amgylchiadau.

Canfu'r tribiwnlys yn unfrydol fod collfarn y cynghorydd am yrru â gormod o alcohol yn y gwaed yn golygu ei fod wedi torri paragraff 6.1(a) o godau ymddygiad yr awdurdodau.

Derbyniodd y tribiwnlys achos, pan dorrwyd y cod ymddygiad, fod y cynghorydd yn sâl a bod ei gyflwr meddygol wedi effeithio ar ei bwyll a'i ymddygiad. Ar ben hynny cymerodd y tribiwnlys i ystyriaeth y ffaith bod y cynghorydd wedi cydweithredu â'r tribiwnlys a'r tystlythyrau ysgrifenedig a gyflwynwyd.

Oni bai am yr holl ffactorau lliniaru byddai'r tribiwnlys achos wedi ystyried ataliad hir neu anghymwyso'r cynghorydd am gyfnod. Daeth y tribiwnlys achos i'r casgliad y dylid atal y cynghorydd rhag gweithredu fel aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Cymuned Llantrisant am gyfnod o ddau fis.

APW/001/2006/CT - Cyngor Sir Casnewydd

Ymwnâi'r atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd.

Roedd y cynghorydd yn aelod o banel mabwysiadu'r cyngor. Ymwnâi'r achosion honedig o dorri'r cod ymddygiad â datgelu gwybodaeth a gafwyd trwy fod yn aelod o'r panel hwnnw.

Cynhaliwyd y gwrandawriad gan dribiwnlys achos yn gyhoeddus, ac eithrio'r dystiolaeth yr ystyrid ei bod o natur gyfrinachol.

Gwadodd y cynghorydd iddi ryddhau unrhyw wybodaeth gyfrinachol, yn arbennig unrhyw wybodaeth y byddai wedi'i chael trwy fod yn aelod o Banel Mabwysiadu.

Nid oedd y tribiwnlys achos yn argyhoeddedig, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod y cynghorydd wedi datgelu gwybodaeth gyfrinachol a chanfu nad oedd wedi methu â chydymffurfio â'r cod ymddygiad.

APW/003/2006-07/CT - Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Ymwnâi'r atgyfeiriad gan yr Ombwdsmon â honiadau bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor trwy fynd ati'n fwriadol i gamarwain swyddog ymchwilio'r Ombwdsmon ar ddau achlysur, trwy fethu â datgelu gwybodaeth yn ymwneud ag eitem yng nghofrestr anrhegion a lletygarwch y cyngor.

Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i honiad cynharach bod y cynghorydd wedi methu â datgelu buddiant mewn cais cynllunio, y bu'n rhaid i'r awdurdod benderfynu arno, er ei bod wedi bod yn westai i'r ymgeisydd mewn atyniad



twristiaid yr oedd yn berchen arno yn ôl y sôn. Dywedodd y cynghorydd ei bod wedi ymweld â'r atyniad fel "ymwelydd sy'n talu" a gwadodd fod ganddi fuddiant yn y cais cynllunio.

Daeth yr Ombwdsmon i'r casgliad bryd hynny nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y cynghorydd wedi bod yn westai i'r ymgeisydd, a fyddai wedi ei gofodi i ddatgan buddiant yn y cais pan y'i ystyriwyd gan yr awdurdod.

Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, cafodd yr Ombwdsmon dystiolaeth newydd yn awgrymu bod y cynghorydd wedi derbyn lletygarwch gan yr ymgeisydd a'i bod wedi cofnodi'r ymweliad yng nghofrestr anrhegion a lletygarwch yr awdurdod.

Canfu'r tribiwnlys achos fod y cynghorydd wedi talu'r pris mynediad i'r atyniad ac na chafodd ei pharti luniaeth am ddim yn ystod eu hymweliad. Canfu'r tribiwnlys achos i'r eitem yn y gofrestr o anrhegion a lletygarwch gael ei chofnodi yn ôl pob tebyg o ganlyniad i gamddealltwriaeth.

Canfu'r tribiwnlys achos na soniodd y cynghorydd am yr eitem wrth yr Ombwdsmon na'i ymchwilwyd am nad oedd wedi sylweddoli ei phwysigrwydd.

Ar sail eu canfyddiadau o ffaith, canfu'r tribiwnlys achos na fu unrhyw fethiant i gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod.

Crynodeb o Dribiwnlysoedd Apêl

Cariwyd dwy apêl drosodd o'r flwyddyn adrodd flaenorol a chafodd y Panel 2 apêl arall yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau lleol. Penderfynwyd ar dair o'r apelau hyn yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn ac fe'u crynhoir isod.

APW/005/2005/A - Cyngor Cymuned Coedffranc

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor cymuned ac y dylid ei atal dros dro am 2 fis. Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi:

- a. ceisio defnyddio ei safle fel cynghorydd i sicrhau mantais i glwb pêl-droed yr oedd yn aelod o'i bwyllgor trwy geisio dylanwadu ar glwb ieuenctid i ddileu dyled a oedd ar y clwb pêl-droed iddo.
- b. methu â datgan buddiant a gwrthod cymryd rhan pan oedd llythyr o gŵyn yn ei erbyn yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r cyngor cymuned ar 3 Mawrth 2004.

Honnodd y cynghorydd nad oedd wedi cymryd rhan yn y penderfyniad a wnaed gan y clwb pêl-droed i geisio darbwyllo'r clwb ieuenctid i ddileu ei ddyled.

O ran yr ail honiad, haerodd y cynghorydd nad oedd yn gwybod o flaen llaw bod y llythyr yn mynd i gael ei ddarllen yn uchel ac mai amryfusedd ar ei ran oedd peidio â datgan buddiant a chymryd y camau priodol.

Canfu'r tribiwnlys apêl fod y cynghorydd wedi cymryd rhan ym mhenderfyniad y clwb pêl-droed i geisio dileu'r ddyled a'i fod wedi gwneud galwadau ffôn i aelodau o'r gymuned pan oedd wedi ceisio trefnu i'r ddyled gael ei dileu. Roedd y tribiwnlys yn fodlon ei fod, wrth wneud y galwadau ffôn, yn gwneud hynny fel cynghorydd ac fel trysorydd y clwb pêl-droed.

Nid oedd y tribiwnlys apêl yn argyhoeddedig bod y cynghorydd yn gwybod o flaen llaw am y llythyr o gŵyn a oedd yn mynd i gael ei ddarllen yn uchel yng nghyfarfod y cyngor gymuned. Fodd bynnag, daeth i'r casgliad bod yn rhaid ei fod yn gwybod pan ddarllenwyd y llythyr yn uchel ei fod yn ymwneud ag ef ac y dylai fod wedi datgan buddiant ar unwaith. Ar ben hynny dylai fod wedi hysbysu'r cyngor na fyddai'n cymryd unrhyw ran yn eu trafodaethau, dylai fod wedi ystyried ei esgusodi ei hun ac yn ddiaw dylai fod wedi ildio'r Gadair.

Canfu'r tribiwnlys apêl iddo fethu â chydymffurfio â pharagraffau 7(a), 11(a) a 16(3) o'r cod ymddygiad.

Cadarnhaodd y tribiwnlys benderfyniad y pwyllgor safonau bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad. Ar ben hynny penderfynodd y tribiwnlys gadarnhau penderfyniad y pwyllgor safonau y dylid atal y cynghorydd am gyfnod o 2 fis.



APW/009/2006/A - Cyngor Cymuned Saint-y-brid

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor cymuned ac y dylid ei atal dros dro am gyfnod o 3 mis. Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi methu â datgan buddiant a gadael un o gyfarfodydd y cyngor cymuned pan ddaeth mater yn ymwneud â chontract gerbron y cyngor er mwyn iddo ei drafod a/neu benderfynu arno.

Derbyniodd y tribiwnlys apêl ddadl yr apelydd, er bod y pwyllgor safonau wedi canfod bod y cod wedi'i dorri, fod y pwyllgor wedi methu â nodi yn ei benderfyniad ysgrifenedig pryd yr oedd y cod wedi'i dorri, ac nid oedd wedi rhoi rhesymau digonol dros ei benderfyniad ychwaith.

Daeth y tribiwnlys apêl i'r casgliad nad oedd ganddo bŵer statudol i unioni'r cyfryw ddiffygion ac, o ganlyniad, dileodd benderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bro Morgannwg bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad y cyngor cymuned.

APW/002/2006-07/A - Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cafwyd apêl yn erbyn penderfyniad Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent bod y cynghorydd wedi torri cod ymddygiad yr awdurdod. Yr honiadau oedd bod y cynghorydd wedi methu â dangos parch at swyddog cynllunio mewn cyfarfod o'r Is-bwyllgor Cynllunio.


Heriodd y cynghorydd yr honiad bod y geiriau a ddefnyddiwyd ganddo yn y cyfarfod safle yn gyfystyr â thorri'r cod. Haerodd ei fod wedi ymddiheuro i'r swyddog cynllunio a dweud wrtho mai cwyn yn erbyn swyddogion priffyrdd ac nid swyddogion cynllunio oedd ei gŵyn.

Yn bresennol yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Cynllunio roedd nifer o gynghorwyr, swyddogion y cyngor ac aelodau o'r cyhoedd. Amheuai'r datganiad a wnaed gan y cynghorydd yn y cyfarfod safle unplygrwydd proffesiynol y swyddog cynllunio. Canfu'r tribiwnlys apêl fod y geiriau yn esgeulus a/neu'n ddiotal (ond ddim yn faleisus) ac nad oeddynt yn dangos parch at unplygrwydd proffesiynol y swyddog cynllunio.



Canfu'r tribiwnlys i'r cynghorydd ffonio'r swyddog cynllunio ar y diwrnod ar ôl y cyfarfod safle, ond nad ymddiheurodd yn llawn am ei sylwadau amharchus. Cymerodd y tribiwnlys apêl i ystyriaeth y dystiolaeth o blaid y cynghorydd y cadarnhawyd ei fod wedi gweithio'n galed yn y gymuned.

Felly penderfynodd y tribiwnlys apêl gadarnhau penderfyniad Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent bod y cynghorydd wedi torri'r cod ymddygiad. Ar ben hynny penderfynodd y tribiwnlys apêl y dylid atal y cynghorydd dros dro am 3 mis, y dylai gael hyfforddiant yn y cod ac y dylai ymddiheuro'n ysgrifenedig.



4. Trosolwg o Weithdrefnau

Rheolir gwaith Panel Dyfarnu Cymru gan Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ac is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU (yr olaf mewn perthynas ag awdurdodau'r heddlu).

Prif nod y Panel Dyfarnu yw sicrhau bod pob parti'n gallu cyflwyno ei achos ac y rhoddir yr ystyriaeth lawnaf a thecaf posibl i bob achos.

Bydd tribiwnlysoedd fel rheol yn cynnwys cadeirydd sydd â chymhwyster cyfreithiol, a dau berson arall. Gellir amrywio hyn yn ôl disgrisiwn y Llywydd.

Cynhelir gwrandawiadau tribiwnlysoedd yn gyhoeddus fel rheol ac eithrio pan fydd y tribiwnlys o'r farn y byddai cyhoeddusrwydd yn amharu ar gyfiawnder, neu pan fydd y gwrthapelydd neu'r apelydd yn cytuno y gellir ymdrin â'r honiadau drwy sylwadau ysgrifenedig. Mae'n bosibl y bydd rhesymau eraill o bryd i'w gilydd dros beidio â chynnal gwrandawriad, neu ran o wrandawriad, yn gyhoeddus.

Cynhelir gwrandawiadau yn lleol fel rheol pan fydd lleoliad addas ar gael. Wrth wneud trefniadau ar gyfer gwrandawiadau ystyrir unrhyw anghenion arbennig sydd gan y rhai hynny a fydd yn bresennol e.e. mynediad i gadeiriau olwyn, cyfieithydd, cymorth clywed.

Darperir gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer y rhai sy'n dymuno i wrandawriad tribiwnlys gael ei gynnal yn Gymraeg ac mae pob cadeirydd tribiwnlys ar hyn o bryd yn siarad Gymraeg.

Mae gan y sawl sy'n destun yr honiadau hawl i roi tystiolaeth, galw tystion, holi unrhyw dystion ac annerch y tribiwnlys ar faterion sy'n berthnasol i honiadau sy'n cael eu hystyried.

Cyhoeddir manylion am wrandawiadau tribiwnlysoedd a'u canlyniad ar wefan y Panel ac yn y wasg leol, fel y bo'n briodol.

Ceir hawl i apelio o dan adrannau 78(10) a 79(15) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, fel y bo'n briodol, yn erbyn penderfyniad tribiwnlysoedd achos interim a thribiwnlysoedd achos a sefydlwyd gan y Panel Dyfarnu. Nid oes hawl i apelio yn erbyn penderfyniadau tribiwnlysoedd apêl, ond, fel corff cyhoeddus, gall y Panel Dyfarnu a'i dribiwnlysoedd hefyd fod yn destun adolygiad barnwrol pan fo'n briodol.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am weithdrefnau tribiwnlysoedd ar wefan y Panel Dyfarnu (www.adjudicationpanelwales.org.uk).

5. Uned Gymorth

Cefnogir y Panel Dyfarnu gan:

Stephen Phipps, Cofrestrydd y Panel Dyfarnu
John Davies,
Carol Webber,

Cyfeiriad y Panel yw:

Panel Dyfarnu Cymru
Ystafell G-076
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6705/6414

Ffacs: 029 2082 5346

E-bost: adjudication.panel@wales.gsi.gov.uk

Gwefan: www.adjudicationpanelwales.org.uk



Crynodeb o'r cosbau a osodwyd gan dribiwnlysoedd achos a thribiwnlysoedd apêl yn y cyfnod rhwng Hydref 2002 a 31 Mawrth 2007

Cosb	Hyd y Gosb	Nifer o Benderfyniadau
Tribiwnlysoedd Achos ac Apêl		
Anghymhwys	2 flynedd	1
Atal	12 mis	1
	9 mis	1
	6 mis	3
	3 mis	1
	2 fis	2
	1 mis	1
Atal rhannol		0
Ceryddu		2
Tramgwydd - dim cosb		0
Dim tramgwydd		3
Apeliadau		
Cynnal/gwrthod y dyfarniad		5 (83%)/1 (17%)
Argymhell cosb wahanol		1 cynnydd/1 gostwng
Gwrthod - Dim amser ar ôl		1